Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Gweithdrefn

# Addasrwydd i Ymarfer

2025/26

**Cynnwys**

1 Cyd-destun a Datganiad Polisi ..... 2

2 Lle mae angen gweithredu ar unwaith ..... 3

3 Gweithrediadau asiantaethau allanol ..... 4

4 Enghreifftiau o bryderon Addasrwydd i Ymarfer ..... 5

5 Cydberthynas â gweithdrefnau eraill ..... 6

6 Y Weithdrefn ..... 7

6.2 Adrodd am bryder ..... 7

7 Y Weithdrefn: Cam Un ..... 8

8 Cyfeirio achos i Gam Dau ..... 10

9 Rôl, Hawliau a Chyfrifoldeb o fewn Cam Dau ..... 11

9.1 Y Swyddog Gweithdrefn yng Ngham Dau: ..... 11

9.2 Hawliau a Chyfrifoldebau'r Myfyriwr yng Ngham Dau ..... 11

9.3 Rôl a Chylch Gwaith y Panel Addasrwydd i Ymarfer (Ymddygiad) ..... 12

9.4 Aelodaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer ..... 13

9.5 Trafodion y Panel Addasrwydd i Ymarfer ..... 13

9.6 Canlyniadau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer ..... 14

10 Cam Tri - Cam apelio: Gweithdrefn ar gyfer Apelio yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd i Ymarfer ..... 17

11 Hyfforddi, Monitro ac Adolygu ..... 20

12 Enwebeion ..... 20

13 Cyfrinachedd ..... 20

14 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch ..... 20

15 Hygyrchedd ..... 21

16 Atodiad A – I ddilyn ..... 22

17 Atodiad B - Gofyniad derbyn i BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol - Proses ar gyfer Ystyried datgeliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl ..... 22

## 1 Cyd-destun a Datganiad Polisi

1.1 Addasrwydd i Ymarfer yw’r gallu i fodloni safonau proffesiynol, mae’n ymwneud â chymeriad, cymhwysedd proffesiynol ac iechyd. Mae’r Polisi Addasrwydd i Ymarfer yn berthnasol i fyfyrwyr y mae eu rhaglen astudio yn arwain at gymhwyster proffesiynol/yn uniongyrchol i broffesiwn lle mae gofynion academaidd, ymddygiadol ac iechyd (a nodir gan y Brifysgol a chan y corff/cyrff rheoleiddiol perthnasol) ac y dylid eu bodloni i sicrhau Addasrwydd i Ymarfer. Gall hyn gynnwys yr holl fyfyrwyr sydd wedi cofrestru ar raglenni astudio o’r fath gan Brifysgol Wrecsam mewn sefydliadau partner neu drwy gytundeb allgymorth.

1.2 Dylai’r broses fod yn un gefnogol hyd yn oed pan fo’r canlyniad yn golygu na all y myfyriwr barhau â’i astudiaethau neu efallai y bydd yn graddio ond heb fod yn gymwys i wneud cais am gydnabyddiaeth y corff proffesiynol.

1.3 Mae gan ddarparwyr ddyletswydd i:

- Sicrhau bod myfyrwyr ar raglenni proffesiynol yn addas i ymarfer yn y proffesiwn hwnnw, neu fe fyddant wedi iddynt gwblhau’r rhaglen.
- Amddiffyn cleifion y presennol a’r dyfodol, cleientiaid, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau o’r cyhoedd.
- Diogelu hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
- Cydymffurfio â gofynion y proffesiwn/cyrff rheoleiddio.
- Sicrhau nad yw myfyrwyr yn derbyn cymhwyster sy’n eu galluogi i ymarfer proffesiwn os nad ydynt yn addas i wneud hynny.

1.4 Dylid defnyddio’r weithdrefn hon mewn perthynas â, ond heb fod yn gyfyngedig i’r, amgylchiadau canlynol:

- Lle mae honiadau o ymddygiad neu arferion nad ydynt yn gyson â safonau proffesiynol neu sy’n groes i reolau/rheoliadau partner/lleoliad.
- Lle mae unrhyw bryder rhesymol y gallai myfyriwr fod yn anaddas ar gyfer y rhaglen astudio neu ar gyfer y proffesiynau y mae’r rhaglen astudio yn darparu mynediad iddynt.
- Lle mae myfyriwr yn torri unrhyw god ymarferol proffesiynol perthnasol.

1.5 Lle mae gan y Brifysgol bryderon ynghylch myfyriwr sydd eisoes yn aelod cofrestredig o broffesiwn, mae ganddynt gyfrifoldeb i fynegi’r pryderon hynny gyda’r corff proffesiynol perthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a /neu gyflogwr y myfyriwr.

1.6 Bwriedir i Gam 1 fod yn ddatblygiadol a rhoi cyfle i’r myfyriwr wella ei arfer neu ei ddull. Os na chaiff y pryderon eu datrys gan y camau y cytunwyd arnynt yng Ngham 1, yna gellir cychwyn Cam 2. Efallai na fydd Cam 1 yn briodol bob amser a gellir ei hepgor os yw’r broblem neu’r pryder yn ddigon difrifol.

1.7 Mewn achosion o Addasrwydd i Ymarfer, y safon brawf yw'r safon sifil, neu "y cydbwysedd tebygolrwydd". Mae hyn yn golygu bod yn rhaid profi bod rhywbeth yn fwy tebygol o fod wedi digwydd na heb, a bod hyn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth.

1.8 Bydd unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag achosion yr ymdrinnir â nhw dan y weithdrefn hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol iawn ac yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â thrydydd parti hefyd yn cael ei drin yn gyfrinachol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

1.9 Bydd y weithdrefn yn berthnasol er gwaethaf unrhyw atal/tynnu'n ôl o gofrestriad a ofynnir gan y myfyriwr. Pan fydd myfyriwr yn gofyn am atal/tynnu'n ôl neu'n cael ei atal/tynnu'n ôl o'r Brifysgol a bod adroddiad pryder cychwynnol neu honiadau yn cael eu hystyried dan y weithdrefn hon, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fwrw ymlaen ag ymchwiliad i'r honiadau. Pwrpas parhau â'r ymchwiliad fyddai sicrhau y byddai digon o wybodaeth a datganiadau tystion ar gael pe bai'r myfyriwr yn ceisio ailymuno â'r Brifysgol. Yn dilyn atal/tynnu'r myfyriwr yn ôl, gellir gohirio'r achos, ac ni chynullir Panel Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, os bydd y myfyriwr yn ceisio ailymuno â'r Brifysgol, cynullir panel a bydd yn penderfynu a fyddai ail-dderbyn i'r Brifysgol yn briodol, ac unrhyw gosb y dylid ei gosod pe bai'r myfyriwr yn cael ei ail-dderbyn. Os caiff y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ei hatal, efallai y bydd gofyn i'r Brifysgol adrodd ar wybodaeth ynghylch y pryder(on) addasrwydd i ymarfer ac atal/tynnu myfyriwr yn ôl o'r rhaglen i'r corff/cyrff rheoleiddio perthnasol.

1.10 Mae ymgeiswyr ar gyfer y rhaglen BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol yn amodol ar fodloni'r gofyniad datgeliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl cyn cofrestru, fel sy'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Amlinellir y broses ar gyfer ystyried datgeliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl yn Atodiad B.

## 2 Lle mae angen gweithredu ar unwaith

2.1 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i fyfyrwyr, staff, a'r gymuned ehangach yn cynnwys cleifion, cleientiaid, ac aelodau'r cyhoedd. Mewn achosion difrifol lle mae risg sylweddol, bydd y Brifysgol yn cymryd camau i atal myfyriwr rhag astudio a/neu fynd ar leoliad a/neu'r campws.

2.2 Lle ystyrir bod pryderon yn risg uniongyrchol bod ymddygiad myfyriwr yn peryglu eraill neu'n effeithio'n negyddol ar y Brifysgol, y lleoliad neu bartneriaid allanol, gellir tynnu'r myfyriwr o'r lleoliad ar unwaith ar awdurdod y Deon Cyswllt neu'r Arweinydd Proffesiynol neu unrhyw berson awdurdodedig arall.

2.3 Dylai argymhellion ar gyfer atal dros dro o astudiaethau a/neu leoliad gael eu cefnogi gan y Deon Cyswllt a'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebi). Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y cytunir ar atal o'r fath, lle ystyrir bod presenoldeb y myfyriwr yn erbyn buddiannau darparwr lleoliad neu'r bobl y byddai'r myfyriwr yn dod i gyswllt â nhw yn y lleoliad, neu i ddiogelu aelod neu aelodau o gymuned y Brifysgol yn cynnwys y myfyriwr ei hun neu i ddiogelu enw da'r Brifysgol. Gellir gwneud y penderfyniad

ynghylch atal ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymchwilio, wrth i dystiolaeth newydd gael ei chasglu.

2.4 Mewn rhai amgylchiadau, yn ôl disgresiwn Cyfarwyddwr SPSA, gellir caniatáu i'r myfyriwr barhau i fynychu darlithoedd ac ymgysylltu mewn astudiaethau academaidd ond cael ei atal rhag ymgymryd ag ymarfer proffesiynol ar ei leoliad.

2.5 Dylid dehongli atal fel arfer fel gwaharddiad rhag ymgysylltu â holl wasanaethau a chyfleusterau'r Brifysgol. Fodd bynnag, gall atal fod yn amodol ar gymhwyster, megis caniatad i sefyll arholiad. Dylid hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig am delerau'r atal.

2.6 Mewn rhai amgylchiadau, gall atal gynnwys gwaharddiad o lety preswyl sy'n eiddo i'r Brifysgol neu'n cael ei reoli ganddi, ond dim ond gyda sylw dyledus i'r broses gyfreithiol briodol a thelerau'r cytundeb llety sydd ar waith y gellir cymryd y cam hwn.

2.7 Mae gan y myfyriwr yr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniad y dylid ei atal lle mae tystiolaeth o newid mewn amgylchiadau a fyddai â dylanwad sylweddol ar y penderfyniad. Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr yn ystyried adolygiad mewn ymgynghoriad â'r Deon Cyswllt.

2.8 Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r darparwr lleoliadau mewn unrhyw achos lle mae'r myfyriwr yn cael ei atal yn unol â'r Weithdrefn hon.

2.9 Fel arfer, bydd yr atal yn parhau mewn grym nes bod canlyniad y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer wedi'i gwblhau.

## 3 Gweithrediadau asiantaethau allanol

3.1 Pan fydd camymddwyn sy'n codi pryderon ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn cael ei adrodd i'r heddlu neu asiantaeth statudol allanol arall, fel arfer ni chymerir unrhyw gamau nes bod canlyniad unrhyw achos gan yr heddlu, y llys neu asiantaeth allanol arall yn hysbys, ac eithrio y gellir gwahardd y myfyriwr dan delerau adran 4.

3.2 Pan fo angen ymchwiliad cychwynnol/asesiad risg o'r achos i egluro a oes angen unrhyw gamau rhagofalu/atal ac i sicrhau bod datganiadau'n cael eu cymryd wrth i atgofion o ddigwyddiadau barhau'n glir, dylid cysylltu ymlaen llaw â'r heddlu, y llys neu'r asiantaeth allanol i osgoi peryglu eu hymholiadau.

3.3 Pan fydd y Brifysgol yn ymwybodol bod adroddiad am fyfyriwr wedi ei rhoi i'r heddlu neu asiantaeth statudol allanol arall, efallai y bydd yn ofynnol neu'n cael ei ystyried yn briodol adrodd hyn i'r Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol. Lle mae'r myfyriwr yn cael ei gyflogi mewn cyd-destun proffesiynol, gall y Brifysgol hysbysu cyflogwr y myfyriwr. Bydd yr aelod priodol o dîm y rhaglen yn gyfrifol am hysbysu'r Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol a/neu'r cyflogwr, a bydd y myfyriwr yn cael gwybod bod y Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol wedi cael gwybod.

3.4 Bydd unrhyw gyfnod o atal wrth i achos allanol fynd rhagddo am y cyfnod sydd ei angen i'r asiantaeth statudol allanol gwblhau ei achos ac i hysbysu'r myfyriwr o'r canlyniad. Gofynnir i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth o'r canlyniad i'r brifysgol, a bydd y cyfnod atal yn parhau nes bod y dystiolaeth hon wedi cael ei darparu.

3.5 Unwaith y bydd canlyniad achos yr asiantaeth statudol allanol yn hysbys, bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a gweinyddiaeth Myfyrwyr, ar ôl ymgynghori â'r Deon Cyswllt, yn penderfynu a ddylid cychwyn y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Wrth ddod i benderfyniad, byddant yn ystyried penderfyniad yr asiantaeth statudol allanol.

## 4 Enghreifftiau o bryderon Addasrwydd i Ymarfer

4.1 Dylid defnyddio'r weithdrefn hon mewn perthynas â, ond heb fod yn gyfyngedig i'r, amgylchiadau canlynol:

- Lle mae honiadau o ymddygiad neu arferion nad ydynt yn gyson â safonau proffesiynol.
- Lle mae honiadau o ymddygiad neu arferion sy'n groes i reolau/rheoliadau partner/lleoliad.
- Lle mae unrhyw bryder rhesymol y gallai myfyriwr fod yn anaddas ar gyfer y rhaglen astudio.
- Lle mae unrhyw bryder rhesymol y gallai myfyriwr fod yn anaddas ar gyfer y proffesiwn y mae'r rhaglen astudio yn darparu mynediad iddo.
- Lle mae myfyriwr yn torri unrhyw god ymarferol proffesiynol perthnasol.

4.2 Er enghraifft;

- Camymddwyn academaidd (er enghraifft llên-ladrad, twyllo mewn arholiadau, ffugio cofnodion).
- Troseddau disgyblu eraill (er enghraifft ymddygiad gwrthgymdeithasol, treisgar neu fygythiol, camymddwyn rhywiol, trais, bwlio neu aflonyddu, difrod i eiddo, camddefnyddio mynediad i'r rhyngrwyd, camddefnyddio sylweddau/alcohol).
- Torri rheolau iechyd a diogelwch.
- Methu â datgelu euogfarnau neu wybodaeth arall y mae'n ofynnol i'r myfyriwr ei datgelu.
- Dogfennaeth lleoliad anghywir neu ffug.
- Arfer anniogel, anghymhwysedd neu angen gormodol o oruchwyliaeth.

4.3 Ymddygiad amhroffesiynol, yn cynnwys:

- Diffyg parch, agwedd ymosodol neu wael, diogi.
- Diffyg disgyblaeth, methu â dilyn cod gwisg, defnydd amhriodol o ffôn symudol, cadw amser gwael, presenoldeb gwael.

- Methu â hunanfyfyrio, diffyg mewnwelediad.
- Diffyg ymgysylltu ag ymchwiliadau i ymddygiad amhroffesiynol.
- Hunan reoli gwael, diffyg atebolrwydd personol.
- Anonestrwydd.
- Torri cyfrinachedd claf neu unrhyw dorri rheolau Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data perthnasol arall.
- Ymddygiad tu hwnt i astudiaethau'r myfyriwr, yn cynnwys:
  - Euogfarn droseddol e.e. trosedd dreisgar / trosedd o anonestrwydd.
  - Ymddygiad aflonyddgar yn y gymuned.
  - Defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol.
  - Pryderon diogelu.
  - Iechyd meddwl neu gorfforol gwael neu nam corfforol difrifol sydd, er gwaethaf addasiadau rhesymol, yn ymyrryd â gallu'r myfyriwr i ymarfer yn ddiogel.
  - Methu â cheisio cymorth neu ymgysylltu â gwasanaethau priodol mewn perthynas â materion iechyd.
  - Sgiliau cyfathrebu neu iaith gwael.
- Absenoldebau heb esgus a chofnod presenoldeb gwael.
- Unrhyw amgylchiadau eraill a allai gael effaith ar Addasrwydd i Ymarfer.

## 5 Cydberthynas â gweithdrefnau eraill

5.1 Pan fo achos yn cael ei gyfeirio o weithdrefn arall a bod honiadau o gamymddwyn eisoes wedi'u profi, dylid ystyried y canlynol i benderfynu a oes angen unrhyw gamau gweithredu ac os felly, y cam priodol o'r weithdrefn addasrwydd i ymarfer ar gyfer cyfeirio:

- Difrifoldeb y camymddwyn sydd wedi'i brofi.
- Gofynion y corff proffesiynol neu'r rheoleiddiwr mewn perthynas â materion addasrwydd i ymarfer.
- Lefel cyfrifoldeb y Brifysgol am sicrhau Addasrwydd i Ymarfer ar gyfer graddedigion y rhaglen.
- Goblygiadau unrhyw gosb a osodir drwy'r weithdrefn gamymddwyn.
- Cam / lefel astudio presennol y myfyriwr ac a oes cyfle i weithredu camau unioni.
- A oes angen panel annibynnol i ystyried yr achos.

5.2 Dylai Arweinydd y Rhaglen wneud y penderfyniadau ar ôl ymgynghori â'r Deon Cyswllt / Rheolwr Ansawdd.

5.3 Os yw canlyniad unrhyw weithdrefn gamymddwyn flaenorol yn arwain at y myfyriwr yn methu â chwblhau'r dyfarniad a fwriadwyd, e.e. tynnu'n ôl, terfynu astudiaethau, gwahardd, cylch gwaith unrhyw banel Addasrwydd i Ymarfer fydd ystyried goblygiadau'r camymddwyn ar addasrwydd proffesiynol ac a yw'n ofynnol neu'n briodol adrodd i'r Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol a / neu gyflogwr y myfyriwr.

5.4 Os nad os gan achrediad rhaglen unrhyw ofyniad i hysbysu'r Corff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol na'r cyflogwr, gall yr achos gael ei ystyried ar Gam Un y weithdrefn hon.

5.5 Lle mae amgylchiadau'n codi yn ystod gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer, efallai y bydd yn briodol oedi'r broses i ystyried dan weithdrefn arall. Gall hyn gynnwys lle mae myfyriwr yn cyflwyno cwyn, neu lle mae iechyd neu lesiant myfyriwr yn achosi pryderon ynghylch eu gallu i astudio ar y rhaglen a chyfeirir yr achos at y weithdrefn Addasrwydd i Astudio.

## 6 Y Weithdrefn

6.1 Disgwylir y bydd man achosion cychwynnol o bryder ynghylch Addasrwydd i Ymarfer yn cael eu trin cyn gynted â phosibl drwy brosesau anffurfiol gan y Tiwtor Personol, Arweinydd y Rhaglen neu'r Arweinydd Proffesiynol. Gall cyfarfodydd i drafod pryderon fod mewn lleoliad anffurfiol ond dylid eu dilyn gyda nodiadau byr i'r myfyriwr fel bod cofnod lleol o'r pryderon ac unrhyw gamau anffurfiol a gymerwyd.

### 6.2 Adrodd am bryder

6.2.1 Ar ôl derbyn unrhyw adroddiad o bryderon Addasrwydd i Ymarfer, bydd y Deon Cyswllt / Arweinydd Proffesiynol neu enwebeion yn cynnal ymchwiliad cychwynnol i'r amgylchiadau, yn cynnwys casglu gwybodaeth gan y darparwr lleoliadau. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen cyfarfod adolygu achos cychwynnol gyda chynrychiolwyr o'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a'r Tîm Bywyd Myfyrwyr a Champws i benderfynu ar unrhyw gamau rhagofalus sydd eu hangen a'r cam mwyaf priodol ar gyfer ystyried yr achos.

6.2.2 Gellir ystyried yr opsiynau canlynol;

- Mae'r adroddiad yn ymwneud â chymorth lles ac mae'r myfyriwr yn cael ei gyfeirio at y gwasanaethau cymorth myfyrwyr priodol am gyngor a chymorth.
- Mae'r adroddiad yn gysylltiedig ag iechyd ac mae'r myfyriwr yn cael ei gyfeirio at asesiad Iechyd Galwedigaethol neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall i'w asesu yn ôl yr angen. Bydd canlyniad yr asesiad yn cael ei ystyried ar gyfer unrhyw gamau pellach sydd eu hangen. Os penderfynir nad yw'r myfyriwr yn ddigon da i ymgysylltu â'r broses Addasrwydd i Ymarfer, gellir cynnig y cyfle iddo ohirio astudiaethau a dylid oedi'r broses.
- Mae'r adroddiad yn codi pryderon ynghylch Addasrwydd i Ymarfer a dylai Tîm y Rhaglen ddilyn yr achos o dan gam un y weithdrefn.
- Mae'r adroddiad yn ddigon cymhleth neu ddifrifol i symud ymlaen yn uniongyrchol i gam dau o'r weithdrefn.

6.2.3 Ym mhob achos, bydd y myfyriwr yn cael gwybod am y pryderon a godwyd, unrhyw fesurau rhagofalus sy'n cael eu gweithredu, a'i gyfeirio at gymorth. Rhoddir cyfle cynnar i fyfyrwyr roi eu fersiwn o'r digwyddiadau ar y cam hwn.

## 7 Y Weithdrefn: Cam Un

7.1 Lle na chaiff materion eu datrys fel rhan o brosesau monitro myfyrwyr parhaus, yna dylid trefnu cyfarfod fel rhan o weithdrefn Cam Un. Dylai Arweinydd y Rhaglen hysbysu'r myfyriwr o'r rhesymau dros y pryder a dylid gofyn iddo fynychu cyfarfod. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn ymchwilio i'r pryderon ac yn casglu unrhyw wybodaeth berthnasol, yn cynnwys gan y darparwr lleoliadau, i'w hystyried yn y cyfarfod. Lle bo'n berthnasol, gall cynrychiolydd o'r darparwr lleoliadau fod yn rhan o'r cyfarfod. Bydd y myfyriwr yn cael copïau o unrhyw ddogfennau i'w defnyddio yn y cyfarfod.

7.2 Cyn cyfarfod Cam Un, dylai'r myfyriwr:

- Gael gwybod y gallant ddewis cael cwmni.
- Cael gwybodaeth benodol a thystiolaeth o bryderon a gohebiaeth flaenorol yn nodi'r pryderon hynny.
- Cael copi o'r cod ymarfer/canllawiau rhaglen/gofynion proffesiynol penodol ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol i'r rhaglen.
- Cael copi o'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.
- Cael gwahoddiad i ymgynghori ag Undeb y Myfyrwyr a chyda'r adran Bywyd Myfyrwyr a Champws.
- Cael y cyfle i ofyn am unrhyw addasiadau rhesymol lle bo angen.
- Cael gwahoddiad i gyflwyno datganiad mewn ymateb i'r pryderon a godwyd.

7.3 Dylai cyfarfod Cam Un fel arfer gynnwys:

- Y Cadeirydd (fel arfer Deon Cyswllt y Gyfadran neu Arweinydd Proffesiynol).
- Arweinydd y rhaglen neu diwtor o dîm y rhaglen.
- Cynrychiolydd o ddarparwr y lleoliad, lle bo'n berthnasol.
- Cynrychiolydd o dîm Bywyd Myfyrwyr a Champws, lle bo'n berthnasol.

7.4 Bydd y cyfarfod yn cynnwys crynodeb o'r pryderon sy'n cael eu codi gyda chyfeiriad at safonau'r corff proffesiynol a rhoi cyfle i'r myfyriwr ymateb i'r pryderon. Bwriad y cyfarfod yw bod yn ddatblygiadol ac yn gefnogol a rhoi cyfle i'r myfyriwr wella ei arfer neu ei ddull.

7.5 Yn dilyn y drafodaeth gyda'r myfyriwr, gellir cytuno ar un o'r canlyniadau posibl canlynol:

- Ni chaiff y pryderon eu cadarnhau, ac nid oes angen unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.
- Caiff y pryderon eu cadarnhau a chytunir ar un o'r canlynol:
    - o Nodir set o gamau gweithredu i weithredu ar lefel y rhaglen i ddatrys y sefyllfa, gyda pharhad astudiaethau, o dan drefniadau penodol, sy'n cynnwys monitro ffurfiol.
    - o Gwneir addasiadau rhesymol angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr a'r adran berthnasol o Fywyd Myfyrwyr a Champws, a chedwir y rhain dan adolygiad.
- Ni ellir datrys y sefyllfa a/neu mae digon o bryder i gyfeirio'r mater i Gam Dau i'w ystyried gan 'Banel Addasrwydd i Ymarfer (Ymddygiad)'.
    - o Cyflwynir gohiriad i ganiatáu ymchwiliad pellach; ni ddylai gohirio o'r fath fod yn hirach na 10 diwrnod gwaith.

7.6 Cedwir adroddiad ysgrifenedig o'r cyfarfod gan y Tîm Rhaglen ac anfonir copi at y tîm Ansawdd a Rheoleiddio i'w gadw ar gofnod y myfyriwr.

7.7 Bydd y myfyriwr yn cael gwybod am benderfyniad y Panel yn ysgrifenedig cyn pen pum niwrnod gwaith i'r cyfarfod.

7.8 Lle mae cosb a osodir gan weithdrefn arall yn golygu nad yw'r myfyriwr yn gallu cwblhau'r rhaglen, nodir pryderon Addasrwydd i Ymarfer a'u cadw ar gofnod y myfyriwr.

7.9 Yn achos canlyniad sy'n gysylltiedig â chamau gweithredu neu addasiadau parhaus, bydd yn arbennig o bwysig nodi'n glir yn yr adroddiad (neu mewn atodiad iddo, neu mewn llythyr cysylltiedig) y presgripsiwn a'r trefniadau y cytunwyd arnynt i fonitro ac adolygu cynnydd. Nodir amserlen ar gyfer y trefniadau monitro. Dylid cynnal monitro'n rheolaidd yn unol â'r trefniadau hynny a dylid ei gofnodi. Lle mae monitro o'r fath yn dangos wedi hynny nad yw gwelliannau digonol wedi digwydd, yna cyfeirir yr achos i Gam Dau. Gellir cyfeirio achos i Gam Dau cyn cwblhau'r amserlen lle mae monitro'n datgelu nad yw'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r materion sy'n peri pryder. Gall cyfarfod Cam Un ailgynnull:

- I adolygu llwyddiant neu fethiant y presgripsiwn ac i'w addasu/ei gryfhau'n ffurfiol.
- I symud ymlaen i Gam Dau lle canfuwyd, trwy'r broses fonitro, fod y presgripsiwn a nodwyd yng Ngham Un yn aneffeithiol oherwydd y camau gweithredu neu ddiffyg cydymffurfiaeth gan y myfyriwr.
- I adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd yr amserlen.

## 8 Cyfeirio achos i Gam Dau

8.1 Wrth gyfeirio honiadau/pryderon at y Panel Addasrwydd i Ymarfer, bydd y Deon Cyswllt yn enwebu Ymchwilydd Achos i ymchwilio i ffeithiau'r achos. Dylai'r ymchwiliad gael ei gynnal gan aelod o staff nad yw wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r achos o'r blaen.

8.2 Bydd yr Ymchwilydd Achos yn cyfarfod â'r myfyriwr cyn gynted â phosibl. Rhoddir i'r myfyriwr:

- Hysbysiad o'r cyfarfod a gwybodaeth i ganiatáu iddynt ymateb i'r pryderon.
- Copi o'r weithdrefn a'r safonau proffesiynol perthnasol.
- Canllawiau ar gyfer cyngor a chefnogaeth a'r hawl i gael cwmni yn y cyfarfod.

8.3 Dylid darparu cofnod o'r cyfarfod i'r myfyriwr yn dilyn y cyfarfod.

8.4 Gall yr Ymchwilydd Achos hefyd gyfarfod â staff y Brifysgol, staff yn y lleoliad a/neu fyfyrwyr eraill. Dylid ystyried unrhyw wybodaeth / dogfennau neu dystiolaeth berthnasol, yn cynnwys tystiolaeth feddygol, y mae'r myfyriwr yn ei darparu i gefnogi ei achos, yn ogystal ag unrhyw faterion lles.

8.5 Bydd yr Ymchwilydd Achos yn paratoi adroddiad yn seiliedig ar ei ymchwiliad. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Y broses a ddilynwyd.
- Yr honiad/au penodol yn erbyn y myfyriwr sy'n ymwneud â'i addasrwydd i ymarfer.
- Y dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad, y dylid ei mynegrifo a'i chroesgyfeirio yn ôl yr angen, fel bod ei phwysigrwydd a'i pherthnasedd yn glir i'r panel.
- Yr amser(oedd) a'r dyddiad(au) y digwyddodd yr ymddygiadau/tramgwyddau honedig.
- Llwybr archwilio dyddiedig o'r camau a gymerwyd i ddelio â'r mater.
- Unrhyw sylwadau gan y myfyriwr.
- Unrhyw adroddiadau o'r lleoliad ymarfer sy'n berthnasol i'r honiad.
- Adroddiad cyfarfod Cam Un, lle bo'n berthnasol.
- Adroddiad gan Gadeirydd cyfarfod Cam Un, lle cyfeirir achos i Gam Dau oherwydd nad yw'r myfyriwr wedi dangos gwelliant digonol mewn ymateb i drefniadau a roddwyd ar waith ar lefel y rhaglen.
- Casgliadau, yn cynnwys lle mae'r ymchwilydd yn credu y gallai addasrwydd y myfyriwr i ymarfer fod wedi'i amharu, ac a ddylid cyfeirio'r mater at wrandawiad panel addasrwydd i ymarfer. Gall Ymchwilydd yr Achos hefyd nodi tystion addas i fynychu'r gwrandawiad, yn enwedig lle mae'r ffeithiau'n cael eu herio.

8.6 Dylai'r myfyriwr dderbyn copïau o'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad, copi o adroddiad yr ymchwiliad a gwybodaeth am y camau nesaf yn y broses.

## 9 Rôl, Hawliau a Chyfrifoldeb o fewn Cam Dau

### 9.1 Y Swyddog Gweithdrefn yng Ngham Dau:

- Bydd yn rhoi cyngor ac arweiniad i'r Ymchwilydd Achos ynghylch cynnwys yr adroddiad a phresenoldeb tystion.
- Bydd yn gyfrifol am wneud y trefniadau ar gyfer cyfarfod o'r Panel Addasrwydd i Ymarfer.
- Bydd yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad y Gwrandawiad, mewn rhai amgylchiadau gellir lleihau'r cyfnod rhybudd hwn mewn cytundeb â'r myfyriwr.
- Bydd yn sicrhau bod unrhyw addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu gyda chefnogaeth Bywyd Myfyrwyr a Champws lle bo angen.
- Bydd yn sicrhau bod y myfyriwr yn cael y wybodaeth angenrheidiol ac yn cael ei gadw'n wybodus am y camau nesaf drwy gydol y broses.
- Bydd yn ceisio sicrhau annibyniaeth aelodau'r Panel a thegwch y Gwrandawiad.
- Bydd yn sicrhau bod adroddiad o'r trafodion yn cael ei gynhyrchu a'i gymeradwyo gan y Cadeirydd.
- Bydd yn sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i ddiogelu safle academaidd y myfyriwr wrth ddisgwyl canlyniad gwrandawiad y panel Addasrwydd i Ymarfer. Oni bai bod y ddarpariaeth atal dros dro ym mharagraff 4 wedi'i chymhwyso, gellir caniatáu i'r myfyriwr fynychu darlithoedd a chymryd rhan mewn asesiadau ond ni fydd yn cael marciau. Fodd bynnag, ni chaniateir i'r myfyriwr gofrestru ar lefel nesaf y rhaglen nes bod penderfyniad wedi'i wneud gan y Panel.

### 9.2 Hawliau a Chyfrifoldebau'r Myfyriwr yng Ngham Dau

9.2.1 Mae gan y myfyriwr yr hawl i gyflwyno datganiad i'r Panel, neu i ddod ag unrhyw faterion ychwanegol sy'n berthnasol i'w hachos i sylw'r Panel.

9.2.2 Bydd y myfyriwr yn cael yr holl ddogfennau a rennir gyda'r Panel.

9.2.3 Gall myfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, ymgynghorydd Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw berson arall sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion unigol, e.e. gofalwr neu gyfieithydd, ddod gyda'r myfyriwr i'r gwrandawiad i'w gefnogi. Os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cwmni, rhaid iddo hysbysu'r Ysgrifennydd o enw'r person sy'n dod gyda'r myfyriwr cyn y gwrandawiad a nodi a oes gan y person hwnnw gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, yr amser a'r lleoliad a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r person sy'n dod gyda'r myfyriwr. Mae gan y myfyriwr hawl i geisio cefnogaeth gan yr adran Bywyd Myfyrwyr a Champws i baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

9.2.4 Gall y person sy'n dod gyda'r myfyriwr weithredu fel ei gynrychiolydd a gall ymateb ar ran y myfyriwr os rhoddir caniatâd penodol y Cadeirydd. Mae gan y Cadeirydd / Panel yr hawl i fynnu bod myfyriwr yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol pe dymunant.

9.2.5 Gall myfyriwr ofyn am gael cwmni gydag o i wrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir, mewn amgylchiadau cyfyngedig, y gall y myfyriwr ddymuno gofyn am gydymaith cyfreithiol mewn cyfarfod ymchwiliol neu wrandawiad panel. Mewn amgylchiadau cyfyngedig o'r fath, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, yn cynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried fesul achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai), ar ôl ymgynghori â Chyfreithiwr y Brifysgol, gan ystyried y ffactorau perthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ddifrifoldeb y cyhuddiad.
- A oes unrhyw bwyntiau cyfreithiol yn debygol o godi.
- Gallu'r unigolyn i ddeall yr achos yn ei erbyn.
- Anawsterau gweithdrefnol.
- Yr angen i osgoi oedi.
- Yr angen am degwch rhwng y myfyriwr a'r rhai sy'n gwneud yr honiad.

9.2.6 Os caniateir y cais, fel arfer disgwylir i'r myfyriwr ateb unrhyw gwestiynau am y pryderon Addasrwydd i Ymarfer sy'n cael eu hystyried. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael ei chydymaith cyfreithiol ei hun. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rhai sy'n dod gyda nhw.

9.2.7 Dylid nodi na chaniateir i unrhyw berson fynd gyda'r myfyriwr os gellir dangos y gallai'r person ennill mantais bersonol drwy fynychu e.e., myfyriwr sy'n destun i dorri rheol debyg o weithdrefnau'r Brifysgol).

9.2.8 Os yw myfyriwr yn hysbysu y bydd yn mynychu'r gwrandawiad ond wedi hynny, nad yw'n mynychu ac na ddarperir rheswm nac ymddiheuriadau, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb. Os darperir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohirio.

9.2.9 Os yw'r myfyriwr yn gofyn am ohirio, gofynnir am dystiolaeth o liniaru a'i chyflwyno i'r Cadeirydd i'w chymeradwyo. Os bydd y Cadeirydd yn cymeradwyo, caniateir gohirio ond ar un achlysur yn unig.

9.2.10 Os bydd myfyriwr yn hysbysu na fydd yn mynychu'r gwrandawiad neu os na dderbynnir ateb, bydd y gwrandawiad yn mynd rhagddo yn ei absenoldeb.

**9.3 Rôl a Chylch Gwaith y Panel Addasrwydd i Ymarfer (Ymddygiad)**

9.3.1 Bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer (Ymddygiad) yn awyddus i drin myfyrwyr yn deg ac yn gyfartal, yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Ei rôl yw fel a ganlyn:

- Sefydlu ffeithiau'r achos cyn belled ag y bo modd.
- Penderfynu, yn ôl pob tebyg, a yw'r honiadau/pryderon wedi'u profi.

- Ystyried y codau ymarfer, canllawiau ac unrhyw bolisïau neu weithdrefnau penodol perthnasol sy'n gysylltiedig â lleoliad neu leoliad arall lle bo'n berthnasol i'r honiadau.
- Lle bo'n berthnasol, ystyried, gydag addasiadau rhesymol, a fydd y myfyriwr yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ac a fydd yr unigolyn yn gallu gwneud hynny heb oruchwyliaeth ar ôl graddio.
- Penderfynu a yw'r myfyriwr yn addas i ymarfer a'r canlyniad i'r myfyriwr gyda chyfeiriad at adran 9.5.

9.3.2 Pan fo achos yn cael ei gyfeirio o weithdrefn arall a bod honiadau o gamymddwyn eisoes wedi'u profi, cylch gwaith y panel yw ystyried y ddau bwynt bwled olaf a nodwyd uchod.

**9.4 Aelodaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer**

9.4.1 Y disgwyliad arferol yw y bydd y Panel Addasrwydd i Ymarfer wedi'i gyfansoddi fel a ganlyn.

- Aelod o staff sydd â'r arbenigedd priodol i Gadeirio'r Panel.
- Aelod staff academaidd uwch o faes pwnc proffesiynol.
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr neu ei enwebai, a fydd yn aelod o Bwyllgor gwaith Undeb y Myfyrwyr.
- O leiaf un aelod allanol sy'n dal swydd uwch yn y maes proffesiynol perthnasol. Maen prawf allweddol fydd y bydda gan y person wybodaeth awdurdodol am y cod ymarfer proffesiynol gan ei fod yn ymwneud â derbyn recriwtiaid newydd i'r proffesiwn perthnasol. Gall cynrychiolydd partner gwasanaeth ymgymryd â'r rôl hon.
- Cynrychiolydd uwch o dîm Bywyd Myfyrwyr a Champws, lle bo'n berthnasol.
- Ni fydd unrhyw aelod o'r panel wedi cael cysylltiad uniongyrchol â'r achos o'r blaen.
- Yn ogystal, bydd Swyddog Gweithdrefnol a fydd yn cynnig cyngor ar y trafodion ac yn gweithredu fel ysgrifennydd lle bo angen.

**9.5 Trafodion y Panel Addasrwydd i Ymarfer**

9.5.1 Ni all cyfarfod y Panel fynd rhagddo os nad yw ei gyfansoddiad yn gyson â'r trefniadau a ddisgrifir yn y gweithdrefnau hyn.

9.5.2 Mae cynnal y Panel Addasrwydd i Ymarfer yn ôl disgresiwn y Cadeirydd ond fel arfer byddai'n mynd rhagddo fel a ganlyn:

- Bydd y panel yn dechrau gyda chyfarfod preifat o'i aelodau i gadarnhau'r cylch gwaith a sefydlu cwestiynau cychwynnol ar gyfer yr Ymchwilydd Achos / Myfyriwr / Tyst.
- Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Ymchwilydd Achos, y myfyriwr a'r person sy'n dod gyda nhw (lle bo cyngor yn cael ei roi) i ymuno â chyfarfod panel.
- Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Ymchwilydd Achos i gyflwyno'r achos.

- Bydd aelodau'r panel yn cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno.
- Bydd y myfyriwr yn cael ei wahodd i gyflwyno'i achos.
- Bydd aelodau'r panel yn cael eu gwahodd i ofyn cwestiynau i'r myfyriwr.
- Yna bydd unrhyw dystion/arbenigwyr proffesiynol pellach yn cael eu galw i ymateb i gwestiynau a ofynnir iddynt gan y Panel a/neu'r myfyriwr.
- Bydd gofyn i'r tyst/arbenigwyr proffesiynol dynnu'n ôl o'r cyfarfod.
- Bydd unrhyw gwestiynau a ofynnir i'r Swyddog Cyflwyno gan y myfyriwr, yn cael eu cyflwyno drwy'r Cadeirydd yn unig. Bydd gan y Cadeirydd yr hawl i ddiwygio neu wrthod unrhyw gwestiwn arfaethedig.
- Bydd y myfyriwr, ei gynrychiolydd neu'r person sy'n dod gyda'r myfyriwr a'r Swyddog Cyflwyno yn tynnu'n ôl o'r cyfarfod.
- Bydd y Panel yn trafod eu canfyddiadau.

9.5.3 Mewn achosion eithriadol gellir atal y Gwrandawiad am 5 diwrnod gwaith er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol.

9.5.4 Lle bo'n berthnasol, gall y panel gyfeirio'r myfyriwr at Iechyd Galwedigaethol a/neu ymarferydd gofal iechyd arall, a fyddai'n cael cais i roi cyngor annibynnol ar iechyd a ffitrwydd y myfyriwr i ymarfer. Bydd y panel yn ailgynnull pan fydd y wybodaeth bellach ar gael.

9.5.5 Ni chaiff y Panel ofyn am dystiolaeth nad yw'n benodol i'r honiad a ddygwyd yn erbyn y myfyriwr.

9.5.6 Os yw'r myfyriwr wedi bod yn destun Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer yn flaenorol ac nad yw'r wybodaeth hon wedi'i darparu fel rhan o'r wybodaeth berthnasol i'r panel, bydd manylion y canlyniad blaenorol yn cael ei rannu gydag aelodau o'r panel unwaith mae'r penderfyniad terfynol wedi'i wneud, mae'r honiadau wedi cael eu derbyn a bod aelodau o'r panel yn barod i roi sancsiynau ar waith. Bydd rhannu canlyniadau blaenorol yn galluogi effaith grynodol pryderon addasrwydd i ymarfer

**9.6 Canlyniadau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer**

9.6.1 Cyn dod i benderfyniad ynghylch pa gamau y dylai eu cymryd, mae'n arfer dda i'r panel ystyried pob opsiwn, gan ddechrau gyda'r lleiaf difrifol. Nid cosbi'r myfyriwr yw'r bwriad, ond gweithredu'n gymesur lle mae angen amddiffyn y cyhoedd a/neu gadw hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

9.6.2 Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb i esbonio penderfyniadau ynghylch Addasrwydd i Ymarfer, pam nad ystyrir bod camau gweithredu adferol yn bosibl a sut mae'r penderfyniad yn ymwneud â'r gofynion proffesiynol perthnasol.

9.6.3 Lle bo'n berthnasol, dylai'r Panel ystyried canlyniad unrhyw achos gan Awdurdod Statudol Allanol ac a fyddai'n briodol i'r Brifysgol osod cosb ychwanegol ai peidio.

9.6.4 Gall ystyriaethau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer arwain at y canlyniadau a nodir isod. Gall y Panel, yn ôl ei ddisgresiwn, amrywio'r canlyniadau i gyd-fynd â'r achos unigol lle bo'n briodol a gellir dewis canlyniadau lluosog:

- Ni chaiff yr honiad(au) yn erbyn y myfyriwr eu derbyn a lle bo'n berthnasol, caniateir parhad astudiaethau.
- Ni chaiff yr honiad(au) yn erbyn y myfyriwr eu derbyn yn rhannol neu'n llawn. Cytunir ar un neu fwy o'r canlyniadau canlynol:
    - Gellir rhoi rhybudd ffurfiol.
    - Gellir caniatáu parhau ag astudiaethau ar y cyd â goruchwyliaeth arbennig neu astudiaeth neu raglen weithredu y cytunwyd arni gan y Panel.
    - Gwneir addasiadau rhesymol angenrheidiol sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn ymgynghoriad â'r myfyriwr a'r adran berthnasol o Fywyd Myfyrwyr a Champws, a chedwir y rhain dan adolygiad.
    - Atal astudiaethau am gyfnod penodol; yn yr achos hwn, ni chaniateir i'r myfyriwr ailddechrau ei astudiaethau nes bod Panel Addasrwydd i Ymarfer wedi'i gynnull ac wedi bodloni ei hun y byddai'n briodol i'r myfyriwr ailgychwyn y rhaglen.
    - Terfynu astudiaethau ar y rhaglen benodol, gyda'r posibilrwydd o drosglwyddo i raglen nad yw'n un broffesiynol lle bo'n berthnasol.
    - Diarddel o Brifysgol Wrecsam.

9.6.5 Os bydd astudiaethau'n parhau, gall adroddiad y Panel gynnwys manylion penodol am y trefniadau a argymhellir ar gyfer monitro ac adolygu cynnydd. Nodir amserlen ar gyfer y trefniadau monitro. Dylid cynnal monitro'n rheolaidd yn unol â'r trefniadau hynny a dylid ei gofnodi. Bydd yn ôl disgresiwn tîm y rhaglen i gwblhau'r trefniadau / camau gweithredu hyn gyda'r myfyriwr ac yng nghyd-destun gofynion y rhaglen.

9.6.6 Pe bai astudiaethau'n cael eu dirwyn i ben neu y bydd diarddel o'r Brifysgol bydd Panel y Gwrandawiad yn penderfynu:

- A ddylid argymell i'r Bwrdd Asesu fod y myfyriwr yn derbyn unrhyw wobr derfynol neu wobr ymadael y maent wedi ennill credydau academaidd priodol ar eu cyfer. Nid yw'r Panel wedi'i awdurdodi i argymell bod credyd academaidd yn cael ei atal neu ei dynnu'n ôl.
- A ddylid adrodd y canlyniad i'r Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio perthnasol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd yn ofynnol i'r Brifysgol hysbysu'r Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio neu ddarparwr lleoliadau os rhoddir goruchwyliaeth arbennig neu drefniadau penodol ar waith.
- Lle mae'r myfyriwr yn cael ei gyflogi mewn cyd-destun proffesiynol, gall y Brifysgol hysbysu cyflogwr y myfyriwr.

9.6.7 Bydd y Deon Cyswllt yn gyfrifol am hysbysu'r Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio a/neu'r cyflogwr a/neu'r darparwr lleoliadau. Bydd y myfyriwr yn cael gwybod bod y Corff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio neu'r cyflogwr wedi cael gwybod.

9.6.8 Cedwir adroddiad o'r cyfarfod, a gymeradwywyd gan y Cadeirydd, ar gofnod y myfyriwr.

9.6.9 Bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r myfyriwr a'r Deon Cyswllt o benderfyniad y Panel yn ysgrifenedig cyn pen pum niwrnod gwaith i'r Gwrandawiad. Dylai'r llythyr canlyniad esbonio'r ffactorau a ystyriwyd wrth ddod i'r penderfyniadau a wnaed. Dylai'r llythyr penderfyniad hefyd roi gwybodaeth ynghylch:

- Hawl y myfyriwr i apelio.
- Y sail y gallant wneud hynny arni.
- Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl.
- Y weithdrefn briodol; a
- Ble a sut i gyrchu cymorth.

9.6.10 Bydd Deon Cyswllt y Gyfadran yn gyfrifol am weithredu unrhyw raglen weithredu y cytunir arni gan y Panel.

9.6.11 Os oes gan y myfyriwr fenthyciad myfyriwr neu fwrsariaeth, bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu'r corff sy'n dyfarnu'r fwrsariaeth yn cael eu hysbysu pan mae'r gosb a ddyfarnir naill ai yn atal astudiaethau am gyfnod penodol neu'n ddiarddel.

9.6.12 Pan fydd honiadau a ystyrir dan y weithdrefn hon yn cael eu derbyn, gellir hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ganlyniad y gwrandawiad. Pan fo disgresiwn yn bodoli, bydd hyn yn benderfyniad ar y cyd rhwng Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr a Deon y Gyfadran lle mae'r myfyriwr yn astudio neu, yn eu habsenoldeb, aelod o Fwrdd yr Is-ganghellor.

9.6.13 Mae Deddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (2006) yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Brifysgol i wneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn rhai amgylchiadau. Byddai hyn, fel arfer, pan fyddai'r Brifysgol wedi tynnu myfyriwr o weithgaredd rheoledig oherwydd bod y myfyriwr wedi achosi niwed neu wedi peri risg o niwed yn y dyfodol i blant neu oedolion agored i niwed.

9.6.14 Dylid gwneud atgyfeiriad pan fydd myfyriwr wedi:

- Cael rhybudd neu ei gael yn euog o drosedd; neu
- Ymwneud ag ymddygiad perthnasol mewn perthynas â phant a/neu oedolion agored i niwed (h.y., gweithred neu ddiffyg gweithred (esgeulustod) sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed neu wedi'u rhoi mewn perygl o niwed); neu
- Bodloni'r Prawf Niwed mewn perthynas â phlant a/neu oedolion agored i niwed (h.y. nid oedd unrhyw ymddygiad perthnasol wedi bod ond mae risg o niwed i blentyn neu oedolyn

agored i niwed yn dal i fodoli). (Cyfeiriwch at y Polisi ar Atgyfeirio at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; Myfyrwyr).

## 10 Cam Tri - Cam apelio: Gweithdrefn ar gyfer Apelio yn erbyn penderfyniad Panel Addasrwydd i Ymarfer

10.1 Dylai myfyriwr sy'n dymuno apelio penderfyniad Panel Addasrwydd i Ymarfer (Cam 2) gyflwyno datganiad apêl ysgrifenedig, cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn hysbysiad am benderfyniad y Panel.

10.2 Dylai'r datganiad ysgrifenedig amlinellu'r holl faterion y maent yn gofyn i'r Brifysgol eu hystyried i gefnogi'r apêl, y sail dros yr apêl a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

10.3 Dim ond ar y sail ganlynol y gellir ystyried apeliadau:

- Na fu i'r gweithdrefnau gael eu dilyn yn gywir.
- Bod y gwneuthurwr/wyr penderfyniad wedi dod i benderfyniad afresymol.
- Bod gan y myfyriwr ddeunydd tystiolaeth newydd nad oeddent, am resymau dilys, yn gallu eu darparu yn gynt yn y broses.
- Bod yna ragfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn, neu
- Bod y camau mae'r darparwr wedi penderfynu eu cymryd yn anghymesur, neu heb eu caniatáu dan y gweithdrefnau.

10.4 Bydd Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu berson enwebedig na fu'n ymwneud â'r achos yn flaenorol) yn penderfynu a oes sail i'r apêl. Gellir gwrthod apêl heb ymgynnull panel os nad yw'r cyflwyniad apêl yn bodloni un o'r seiliau a restrir uchod neu os caiff ei gyflwyno tu allan i derfyn amser heb reswm da.

10.5 Lle penderfynir bod y sail dros apêl wedi'i bodloni; bydd Panel Apêl yn gwrando ar yr apêl oni bai ei bod yn briodol ailgynnull y Panel Addasrwydd i Ymarfer i adolygu ei benderfyniad. Ystyrir bod yr opsiwn hwn yn briodol lle, yn benodol, mae tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg nad oedd ar gael i gyfarfod gwreiddiol y Panel Addasrwydd i Ymarfer. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid gwahodd y myfyriwr i fynychu gyda'r Ymchwilydd Achos ac unrhyw dystion newydd a nodwyd gan y myfyriwr neu a ystyrir gan Gadeirydd y gwrandawiad i fod yn berthnasol i ystyriaeth effeithiol a theg yr apêl. Gall y myfyriwr gael cynrychiolydd a ddewiswyd ganddo'n gwmni (bydd amodau a bennir ym mharagraff 10.7 isod yn berthnasol).

10.6 Ac eithrio lle cyfeirir yr achos yn ôl at y Panel Addasrwydd i Ymarfer, cynullir Panel Apêl i ystyried yr apêl. Fel arfer bydd y Panel Apêl yn cynnwys:

- Cadeirydd a fydd yn aelod o'r Uwch Dîm Rheoli.
- Aelod staff academaidd uwch o faes pwnc proffesiynol.

- Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Wrecsam neu ei enwebai, a fydd yn aelod o bwyllgor gwaith Undeb y Myfyrwyr.
- O leiaf un aelod allanol sy’n dal swydd uwch yn y maes proffesiynol perthnasol, sydd heb ymwneud â’r achos yn flaenorol. Maen prawf allweddol fydd y bydda gan y person wybodaeth awdurdodol am y cod ymarfer proffesiynol gan ei fod yn ymwneud â derbyn recriwtiaid newydd i’r proffesiwn perthnasol. Gall cynrychiolydd partner gwasanaeth ymgymryd â’r rôl hon.
- Ni fydd unrhyw aelod o’r panel wedi cael cysylltiad uniongyrchol â’r achos o’r blaen.
- Yn ogystal, bydd Swyddog Gweithdrefnol a fydd yn cynnig cyngor ar y trafodion ac yn gweithredu fel ysgrifennydd lle bo angen.

10.7 Gall myfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol neu goleg/sefydliad partner, ymgynghorydd Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw berson arall sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion unigol, e.e. gofalwr neu gyfieithydd, ddod gyda'r myfyriwr i’r gwrandawiad i'w gefnogi. Os yw'r myfyriwr yn bwriadu cael cwmni, rhaid iddo hysbysu'r Ysgrifennydd o enw'r person sy'n dod gyda'r myfyriwr cyn y gwrandawiad a nodi a oes gan y person hwnnw gymwysterau cyfreithiol ai peidio. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod y dyddiad, yr amser a'r lleoliad a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r person sy'n dod gyda'r myfyriwr. Mae gan y myfyriwr yr hawl i geisio cefnogaeth gan adrannau Bywyd Myfyriwr a Champws wrth baratoi ar gyfer y gwrandawiad.

10.8 Os caniateir y cais, fel arfer disgwylir i'r myfyriwr ateb unrhyw gwestiynau am y pryderon Addasrwydd i Ymarfer sy'n cael eu hystyried. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gael ei chydymaith cyfreithiol ei hun. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun a bydd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r ddogfennaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rhai sy'n dod gyda nhw.

10.9 Dylid nodi na chaniateir i unrhyw berson fynd gyda'r myfyriwr os gellir dangos y gallai'r person ennill mantais bersonol drwy fynychu (e.e., myfyriwr sy'n destun i dorri rheol debyg o weithdrefnau'r Brifysgol)).

10.10 Os yw myfyriwr yn hysbysu y bydd yn mynychu'r gwrandawiad ond wedi hynny, nad yw'n mynychu ac na ddarperir rheswm nac ymddiheuriadau, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb. Os darperir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid caniatáu gohirio.

10.11 Os yw'r myfyriwr yn gofyn am ohirio, gofynnir am dystiolaeth o liniaru a'i chyflwyno i'r Cadeirydd i'w chymeradwyo. Os bydd y Cadeirydd yn cymeradwyo, caniateir gohirio ond ar un achlysur yn unig.

10.12 Os bydd myfyriwr yn hysbysu na fydd yn mynychu'r gwrandawiad neu os na dderbynnir ateb, bydd y gwrandawiad yn mynd rhagddo yn ei absenoldeb.

10.13 Gall y person sy'n dod gyda'r myfyriwr weithredu fel ei gynrychiolydd a gall ymateb ar ran y myfyriwr os rhoddir caniatâd penodol y Cadeirydd. Mae gan y Cadeirydd / Panel yr hawl i fynnu bod myfyriwr yn ateb y cwestiwn yn uniongyrchol pe dymunant.

10.14 Gall myfyriwr ofyn am gael cwmni gydag o i wrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir, mewn amgylchiadau cyfyngedig, y gall y myfyriwr ddymuno gofyn am gydymaith cyfreithiol mewn cyfarfod ymchwiliol neu wrandawiad panel. Mewn amgylchiadau cyfyngedig o'r fath, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, yn cynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried fesul achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai), ar ôl ymgynghori â Chyfreithiwr y Brifysgol, gan ystyried y ffactorau perthnasol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ddifrifoldeb y cyhuddiad.
- A oes unrhyw bwyntiau cyfreithiol yn debygol o godi.
- Gallu'r unigolyn i ddeall yr achos yn ei erbyn.
- Anawsterau gweithdrefnol.
- Yr angen i osgoi oedi.
- Yr angen am degwch rhwng y myfyriwr a'r rhai sy'n gwneud yr honiad

10.15 Gall y ddogfennaeth a gyflwynir i'r Panel Apêl gynnwys (yn ogystal â'r Datganiad Apêl a'r Adroddiad Cam 2 Gwrandawiad y Panel Addasrwydd i Ymarfer) y ddogfennaeth a gyflwynwyd i Gam 2 y Panel Addasrwydd i Ymarfer, trawsgrifiad o'r gwrandawiad (lle cafodd ei recordio), unrhyw fanylion ynghylch canlyniadau gwrandawiadau Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer blaenorol a ystyriwyd mewn perthynas â chosbau a osodwyd ar Gam 2 y weithdrefn, ac unrhyw ddogfennaeth arall mae'r parti'n ei ystyried i fod yn berthnasol i'r apêl. Dylai unrhyw ddatganiadau tystion newydd neu ddogfennau newydd gael eu darparu o leiaf dri diwrnod gwaith cyn dyddiad cytunedig y gwrandawiad apêl.

10.16 Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon yr holl ddogfennaeth i'w hystyried gan y Panel Apêl at y myfyriwr o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am ddarparu'r ddogfennaeth i'w ymgynghorydd, ffrind neu gynrychiolydd.

10.17 Bydd yr apêl yn cael ei gynnal yn yr un ffordd â'r Panel Addasrwydd i Ymarfer (gweler paragraff 9.5). Bydd y myfyriwr yn agor gwrandawiad yr apêl drwy gyflwyno'r achos dros eu hapêl, a ddylai gael ei gyfyngu i faterion a amlinellwyd yn flaenorol yn y Datganiad Apêl a bydd ganddo'r hawl i alw ar dystion y mae eu tystiolaeth yn berthnasol i sail yr apêl.

10.18 Bydd Cadeirydd Cam 2 y Panel Addasrwydd i Ymarfer gwreiddiol, os gofynnir iddo gan y Panel Apêl, ar gael i fynychu gwrandawiad Apêl. Gall y Panel Apêl ofyn i aelodau eraill o staff fynychu fel y bo'n briodol.

10.19 Bydd y Swyddog Cyflwyno a fynychodd Cam 2 y Panel Addasrwydd i Ymarfer gwreiddiol ar gael i fynychu gwrandawiad, os gofynnir amdano gan y Panel Apêl.

10.20 Bydd y Panel Apêl yn ystyried y ddogfennaeth sydd gerbron a'r achosion drosto. Bydd y Panel Apêl yn cymryd toriad er mwyn ystyried ei benderfyniad ac mae'n bosib y bydd yn ceisio cyngor cyfreithiol neu gyngor arbenigol arall os yw'n ystyried hyn yn briodol.

10.21 Lle mae Panel Apêl wedi'i fodloni bod y penderfyniad Addasrwydd i Ymarfer a osodwyd gan y Panel Disgyblu o fewn yr ystod o ymatebion rhesymol y gallai'r Panel Apêl fod wedi'u dethol, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei dderbyn.

10.22 Mewn achosion eraill, gall y Panel Apêl gyfnewid penderfyniad gwahanol a allai gynnwys diystyru'r honiadau, rhoi cosb arall ar waith sydd naill ai'n fwy neu'n llai o ran difrifoldeb, neu mewn amgylchiadau eithriadol, gallant benderfynu anfon yr achos am ail-wrandawiad gan Banel Disgyblu sydd wedi'i benodi mewn ffordd wahanol. Os nad yw aelodau o'r Panel yn gallu cytuno, yna y penderfyniad fydd yr un sy'n eiddo i fwyafrif yr aelodau. Pe bai penderfyniad yn cael ei rannu, bydd gan Gadeirydd y Panel bleidlais fantol.

10.23 Lle bynnag y mae'n bosib, bydd y penderfyniad yn cael ei gyfleu i bob parti cyn pen pum diwrnod gwaith i'r gwrandawiad apêl.

## 11 Hyfforddi, Monitro ac Adolygu

11.1 Darperir hyfforddiant i'r holl staff sy'n gysylltiedig â gweithredu'r weithdrefn. Ymgymerir â monitro'r broses drwy gofnodi achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol nad yw'n cynnwys enwau i'w hystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol neu bwyllgor priodol o'r Bwrdd Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data achos ac yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant, yn cynnwys adnabod cyfleoedd hyfforddi pellach.

## 12 Enwebeion

12.1 Bydd cyfeiriadau yn y weithdrefn hon i ddeiliaid unrhyw swydd yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau naill ai at ddeiliad y swydd neu at eu henwebeion priodol.

## 13 Cyfrinachedd

13.1 Gellir rhannu gwybodaeth berthnasol i'r achos gyda staff perthnasol, megis aelodau tîm rhaglen. Dim ond pan ystyrir bod angen y bydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei rhannu, bydd yn gymesur a chaiff ei thrin yn hollol gyfrinachol.

## 14 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch

14.1 Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch yn rhedeg cynllun annibynnol er mwyn adolygu cwynion gan fyfyrwyr. Mae [Enw'r Darparwr] yn aelod o'r cynllun hwn. Os ydych yn anhapus gyda'r canlyniad, mae'n bosib y byddwch yn gallu gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol adolygu eich [hachos cwyn/apêl/disgyblu ac ati]. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, beth y gall ac na all ei

ystyried er mwyn unioni pethau os oes rhywbeth wedi mynd o'i le yma: https://www.oiahe.org.uk/students.

14.2 Fel arfer rydych angen bod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn i chi wneud cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol. Bydd y Brifysgol yn anfon llythyr atoch chi o'r enw "Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau" pan rydych wedi cyrraedd diwedd eich prosesau ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os nad yw eich cwyn yn cael ei derbyn, bydd y Brifysgol yn eich darparu gyda Llythyr Cwblhau Gweithdrefn yn awtomatig. Os yw eich cwyn yn cael ei derbyn neu ei derbyn yn rhannol, gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os ydych am gael un. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd ddylech chi ddisgwyl derbyn un yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.

14.3 Dylai myfyrwyr gyflwyno'u cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol cyn pen 12 mis o gwblhau'r weithdrefn hon. Bydd y cyfnod 12 mis fel rheol yn rhedeg o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

## 15 Hygyrchedd

15.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol sy'n ystyriol o drawma o ran dyluniad a gweithrediad ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad i'r weithdrefn hon, neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynghylch hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom drwy quality@wrexham.ac.uk.

## 16 Atodiad A – I ddilyn

## 17 Atodiad B - Gofyniad derbyn i BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol - Proses ar gyfer Ystyried datgeliadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl

Bydd y wybodaeth ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl ac unrhyw hunan-ddatganiad a wneir yn wirfoddol sy'n ymwneud â hyn yn cael ei thrin yn gyfrinachol - hynny yw, yn cael ei rhannu dim ond ar sail angen gwybod, yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.

I'r rhai sydd â chynigion amodol lle mae mater o bryder megis euogfarn a gadarnhawyd gan ddatgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl:

- Bydd perthnasedd unrhyw wybodaeth a ddatganwyd yn cael ei bennu yn y lle cyntaf gan aelod o Dîm y Rhaglen Gwaith Cymdeithasol ar y cyd â'r Deon Cyswllt sydd â chyfrifoldeb am Waith Cymdeithasol neu gydweithiwr dynodedig. Yn unol ag arferion cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru, ystyrir unrhyw bryderon gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol:
    - o Perthnasedd y drosedd i waith gofal cymdeithasol.
    - o Difrifoldeb y drosedd.
    - o Yr amser ers i'r drosedd ddigwydd.
    - o P'un a oes gan yr ymgeisydd batrwm troseddu. (Canllaw Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019).

Bydd unrhyw arferion y bernir bod angen eu hystyried ymhellach yn cael eu trafod gyda chynrychiolydd o bartner awdurdod lleol sy'n aelod o'r Bwrdd Rheoli Rhaglen.

Os bernir bod y datgeliad yn cyfiawnhau trafodaeth dan broses asesu risg, bydd hyn yn cael ei wneud gan banel sy'n cynnwys y Deon Cyswllt sydd â chyfrifoldeb am Waith Cymdeithasol neu gydweithiwr dynodedig, aelod o Dîm y Rhaglen Gwaith Cymdeithasol, Swyddog Hyfforddi Awdurdod Lleol a Rheolwr Awdurdod Lleol. Bydd y meini prawf canlynol yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer trafodaeth:

- A yw sefyllfa'r ymgeisydd wedi newid ers i'r drosedd gael ei chyflawni.
- Yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r drosedd; esboniad yr ymgeisydd am y drosedd.
- Tystiolaeth o adsefydlu neu hyfforddiant.
- Tystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd o'i gymeriad da.
- Ymrwymiad yr ymgeisydd i weithio'n ddiogel mewn gofal cymdeithasol.
- Derbyn ymddiriedaeth a hyder pobl sydd â'r hawl i ofal a chymorth, a gofalwyr. (Canllaw Gofal Cymdeithasol Cymru, 2019).

Yn ogystal, bydd y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru 2017) y mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gyfarwydd ag o yn y cyfweliad ac

sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith wrth ystyried y pwyntiau uchod.

Cynhelir y panel hwn cyn pen pedair wythnos i'r Datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl gael ei weld gan gynrychiolydd y brifysgol, a chyn cofrestru'r myfyriwr, a bydd yn pennu rheoli risg mewn perthynas â'r Cyfleoedd Ymarfer Dysgu a aseswyd.

Gwneir penderfyniad y panel ar ran y bartneriaeth, ac os yw'n addas ar gyfer ymarfer dysgu, gall yr ymgeisydd gael ei groesawu gan unrhyw un o'r awdurdodau lleol, yn amodol ar yr ystyriaethau arferol o ddaearyddiaeth a chysylltiad blaenorol â'r awdurdod.

Os yw'r panel yn canfod nad yw'r ymgeisydd yn addas, byddant yn cael gwybod am y rhesymau dros y penderfyniad hwn yn unol â'r meini prawf uchod a rhoddir cyfle iddynt apelio yn erbyn y penderfyniad cyn pen 10 diwrnod gwaith. Yn yr achos hwn, cynullir ail Banel Asesu Risg cyn gynted â phosibl gydag aelodaeth wahanol.

Mae gan yr ail banel gylch gwaith gwahanol, gan y bydd yr awdurdod lleol a gynrychiolir yn ymgymryd â derbyn yr ymgeisydd ar Gyfle Ymarfer Dysgu os ystyrir ei fod yn addas. Mae hyn er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdod cynnal a gynrychiolir ar y panel cyntaf.

Os bydd yr ail banel yn cadarnhau'r penderfyniad nad yw'r ymgeisydd yn addas, bydd yr ymgeisydd yn cael ei gyfeirio'n ôl at y tîm Derbyniadau, a gellir cynnig rhaglen academaidd amgen i'r ymgeisydd mewn maes pwnc cysylltiedig. Bydd Deon y Gyfadran yn cael gwybod am y penderfyniad hwn.

Mae'r canlynol yn amlinelliad o'r canllawiau a anfonir at ymgeiswyr i'r cyfeiriad a roddir ar eu cais UCAS cyn y Cyfarfod Addasrwydd i Ymarfer:

**Y Cyfarfod Asesu Risg - Yr hyn sydd angen i chi ei wybod**
Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan y Deon Cyswllt a bydd y panel hefyd yn cynnwys aelod o'r Tîm Rhaglen Gwaith Cymdeithasol a fydd yn cymryd nodiadau, rheolwr o Awdurdod Lleol partner a Chydlynydd Cyfle Ymarfer Dysgu.

Pwrpas y cyfarfod yw asesu a yw ein hawdurdodau lleol partner yn barod i'ch derbyn chi ar Gyfleoedd Ymarfer Dysgu. Ni fyddwch yn gallu cwblhau'r cymhwyster gwaith cymdeithasol proffesiynol heb y cyfleoedd hyn.

Cewch ddod â rhywun i'ch cefnogi yn y cyfarfod, ond bydd angen i chi eiriol drosoch eich hun.
Bydd y panel yn defnyddio Canllaw Addasrwydd Gofal Cymdeithasol Cymru 2019 https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Suitability-guidance-1612.pdf a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru 2017) i wneud penderfyniad ynghylch eich addasrwydd ar gyfer y Rhaglen https://socialcare.wales/cms-assets/documents/Code-of- Professional-Practice-for-Social-Care-web-version.pdf.

Gallwch ddod â gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cyfarfod, fel cyfeiriadau neu ddogfennaeth sy'n ymwneud â'ch datganiad. Er enghraifft, efallai y byddai'n berthnasol dod â chopi o'ch tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd diweddaraf.

Os oes gennych nodwedd warchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dywedwch wrth y panel os hoffech wneud addasiadau rhesymol (megis lleoliad y cyfarfod, darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen).

Bydd y panel yn gofyn i chi esbonio cynnwys eich Datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Manwl.
Ar ôl y cyfarfod, cewch wybod am benderfyniad y panel **cyn pen 10 diwrnod gwaith**.
Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad y panel bydd gennych yr hawl i apelio **cyn pen 10 diwrnod gwaith** o dderbyn y penderfyniad.

**Dilyniant i'r Cyfarfod**
Yn dilyn y penderfyniad, bydd Rheolwr yr Awdurdod Lleol yn cadarnhau penderfyniad y panel gyda'u Hawdurdod Lleol. Mae hyn yn cynrychioli cytundeb i gynnal y myfyriwr ar ran y tri awdurdod lleol. Unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i gwblhau, bydd Deon y Gyfadran a Chyngor Gofal Cymru yn cael gwybod. Os bydd angen proses apêl, bydd yn cymryd yr un fformat ond yn cael ei chynnal mewn Awdurdod Lleol gwahanol, gyda chynrychiolydd o'r brifysgol yn cadeirio'r panel.

**Peidio â datgelu gwybodaeth**
Os daw gwybodaeth i'r amlwg yn dilyn y broses uchod, ac os yw'n ymddangos bod yr ymgeisydd wedi bod yn fwriadol gamarweiniol neu'n anonest, efallai y bydd angen defnyddio gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer, a bydd atgyfeiriad i dîm Addasrwydd i Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cael ei ystyried.